Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

2022-23

Mehefin 2023

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

2022-23

Mehefin 2023

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd 6

1. Cyflwyniad 10

2. Amcan 1: Penderfyniad ymatebol 11

Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 11

Hawliadau treuliau eithriadol 12

Y cytundeb cydweithio 12

Diwygio'r Senedd 13

Cymorth staffio 13

Cynlluniau pensiwn 14

Diogelwch 15

3. Amcan 2: Penderfyniad symlach 16

Sicrhau bod y Penderfyniad yn haws ei lywio 16

Symleiddio mynediad at asesiadau DSE a mesurau iechyd a diogelwch 16

Symleiddio'r broses gaffael 16

Adolygiad thematig i symleiddio'r Penderfyniad 17

4. Amcan 3: Penderfyniad cynaliadwy 18

Adolygiad thematig ar newid ffyrdd o weithio 18

Hyrwyddo ôl troed carbon is ar gyfer teithiau busnes 19

5. Amcan 4: Ennyn ffydd ac ymgysylltu 20

Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd 20

Rhoi adnoddau i Raglen Waith Strategol y Bwrdd 21

Ymgysylltu 21

6. At y dyfodol 23

Ffyrdd o weithio 23

Symleiddio 23

Cymorth Staffio 23

Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 23

Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau 23

Atodiad A: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2022-23 25

Atodiad B: Aelodau'r Bwrdd 28

Rhagair y Cadeirydd

Trefnir yr adroddiad hwn yn ôl y pedwar amcan strategol yr ydym ni fel Bwrdd yn gweithio tuag atynt: ymrwymiad y Bwrdd i sicrhau bod y Penderfyniad yn ymateb i anghenion newidiol yr Aelodau a'r cyd-destun gwleidyddol ac economaidd sy'n esblygu; ei bod yn hawdd ei lywio, gan ddefnyddio mesurau gwirio a chydbwyso priodol; ei fod yn hyrwyddo sefydlogrwydd hirdymor cyllid yng Nghymru a nodau cynaliadwyedd ac y gwneir y gwaith hwn drwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol ac ennyn hyder.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar raglen waith i wneud gwelliannau i'r Penderfyniad yn y Senedd hon ac i gyflwyno Penderfyniad i ddiwallu anghenion y Seithfed Senedd. Mae'r Bwrdd wedi trefnu'r gwaith hwn yn ôl y pum adolygiad 'thematig' a ganlyn: Penderfyniad symlach, cymorth staffio i'r Aelodau, newid ffyrdd o weithio, cymorth ar gyfer lwfans pleidiau gwleidyddol ac adolygiad o gyflogau'r Aelodau. Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tair ffrwd waith gyntaf yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i ymddiried yn y Senedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n galluogi'r Aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol, ac ar yr un pryd, sicrhau gwerth am arian ar gyfer pwrs cyhoeddus Cymru. Er bod y Bwrdd yn annibynnol ar gyfarwyddyd y Senedd a'r Comisiwn, mae angen iddo hefyd gynnal hyder yr Aelodau o ran sut y mae'n gweithredu ac yn defnyddio adnoddau. I'r perwyl hwn, mae'r Adolygiad Canol Tymor o Effeithiolrwydd wedi rhoi adborth gwerthfawr i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r canfyddiadau ac wedi cyhoeddi ein hymateb i'r argymhellion, a'r cam nesaf fydd eu rhoi ar waith drwy'r cynllun gweithredu.

Bydd y Bwrdd yn parhau i gymryd camau i wella ei ymgysylltiad â'r Aelodau a'r staff ac i weithredu mewn modd agored a thryloyw, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth a'i sefydlodd. Ni fu'n bosibl i'r Bwrdd gwrdd yn y cnawd yng Nghaerdydd mor aml ag y byddai wedi dymuno, a hynny am resymau a oedd y tu hwnt i'w reolaeth, ond edrychwn ymlaen at ymgysylltu'n fwy yn y dyfodol.

Eleni, gwelwyd costau byw yn parhau i gynyddu'n gyflym. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr effaith ar yr Aelodau a'u staff ac wedi ymateb yn gyflym i liniaru effaith chwyddiant er mwyn galluogi'r Aelodau i barhau i wneud eu gwaith, gyda chodiadau untro yng nghyflogau staff ac yng nghyllideb costau rhedeg swyddfeydd yr Aelodau. Mae'r newid dros dro i weithio gartref a gweithio hybrid wedi dod yn newid parhaol mewn ffyrdd o weithio, ac ymdrinnir â hyn yn ein hadolygiad thematig. Mae'r Bwrdd wedi nodi rhaglen waith uchelgeisiol i newid y ffordd y caiff yr Aelodau a'u staff eu cefnogi, nid yn unig mewn ymateb i newid ond wrth ddisgwyl newid.

Edrychaf ymlaen at gyflawni'r gwaith hwn gyda fy nghydweithwyr ffyddlon ar y Bwrdd.

Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ein Blwyddyn 2022-23

PENDERFYNIADAU SYLWEDDOL

ARGYFWNG COSTAU BYW

Taliad untro o£600 i'r holl staff cymorth yn 2022-23 a thaliad ychwanegol o £600 wedi'i gytuno ar gyfer 2023-24 a chynnydd o £1000 mewn lwfans costau swyddfa

STAFF YR AELODAU

Cytuno i gynyddu lwfans staffio'r Aelodau yn 2023-24 i sicrhau mwy o hyblygrwydd

ADOLYGU AC YMATEB

Adolygiad canol tymor o effeithlonrwydd ac ymateb y Bwrdd, a gyhoeddwyd fis Ebrill 2023

EIN GWAITH

SAITH

Cyfarfod Bwrdd

WYTH

Cyfarfod â Grwpiau Cynrychioliadol gydag Aelodau a staff cymorth

YMGYSYLLTU AR Y CYD Â CHOMISIWN Y SENEDD

Cyfweliadau ffyrdd o weithio (barn 40/60 o Aelodau wedi'u hystyried)

CYFARFODYDD AG ARWEINWYR PLEIDIAU

Hydref 2022 – dull gweithredu Diwygio'r Senedd

UN AR BYMTHEG

Ymateb i'r adolygiad blynyddol

Cyfarfodydd â deddfwrfeydd eraill i rannu arfer gorau

MAE EIN RHAGLEN WAITH STRATEGOL YN CYNNWYS PUM ADOLYGIAD THEMATIG:

Ffyrdd o weithio | Symleiddio | Cymorth Staffio | Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol | Cymorth Personol a Thaliadau i Aelodau

Dechreuasom ein hadolygiadau thematig gyda chynnydd cynnar ar symleiddio a ffyrdd o weithio. Mae rhaglen waith strategol y Bwrdd yn nodi dull gweithredu'r Bwrdd ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Bydd yr adolygiadau hyn yn llywio'r adolygiadau blynyddol o'r Penderfyniad yn ogystal â llunio Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd.

Bwrdd Taliadau Annibynnol

EIN DIBEN

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd. Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.

EIN HAMCANION STRATEGOL

PENDERFYNIAD YMATEBOL: Cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

PENDERFYNIAD SYMLACH: Symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

PENDERFYNIAD CYNALIADWY: Cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU: Ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

SUT BETH YW LLWYDDIANT?

- Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawn ac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.
- Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.
- Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.

1. Cyflwyniad

1. Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cael y taliadau a'r adnoddau priodol sydd ar gael iddynt i gyflawni eu rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau'r Aelodau yn ogystal â'u lwfansau eraill fel costau staffio a chostau swyddfa.

2. Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

2. Amcan 1: Penderfyniad ymatebol

Penderfyniad sy'n ymateb i gyd-destun newidiol. Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i newidiadau i anghenion busnes yr Aelodau, disgwyliadau dinasyddion, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol.

Dylai cydnabyddiaeth ariannol Aelodau adlewyrchu'n deg gyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol Aelodau a Gweinidogion, a bod yn briodol ar gyfer cyd-destun Cymru. Dylai Aelodau a Grwpiau gael lefel effeithiol a phriodol o gymorth sy'n adlewyrchu anghenion newidiol y Senedd o ran capasiti ac sy'n galluogi Aelodau i ddenu a chadw staff medrus. Dylai'r Penderfyniad alluogi Aelodau o'r Senedd i ymgysylltu'n gynhyrchiol â dinasyddion. Os bydd rhaglen Diwygio'r Senedd yn mynd rhagddi, bydd y Penderfyniad yn destun adolygiad cynhwysfawr i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad

3. Y brif ffordd y mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i ddarparu'r lefel briodol o gymorth i'r Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu rôl yw drwy'r Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad, pan fydd y Bwrdd yn gofyn am sylwadau ar gynigion ar gyfer newidiadau yn y lwfansau a ddarperir yn y Penderfyniad a gofynion eraill o ran newid.

4. Yn dilyn yr Adolygiad Blynyddol diwethaf yn 2022, gan gydnabod y cynnydd sylweddol yng nghostau byw, a deall y byddai hyn yn effeithio ar gostau busnes a staff cymorth yr Aelodau, ymrwymodd y Bwrdd i fonitro'r sefyllfa yn ystod cyfnod ansicr iawn. O ganlyniad, ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd y Bwrdd ar ddau newid eithriadol yn ystod y flwyddyn ym Mhenderfyniad 2022-23. Yn gyntaf, ychwanegu £1,000 at y swm y gallai Aelod ei hawlio gan Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, cynorthwyo'r Aelodau i ddelio â chostau cynyddol rhedeg eu swyddfeydd ac ymgysylltu ag etholwyr. Gwnaeth y Bwrdd ddarpariaeth hefyd i bob aelod o Staff Cymorth gael £600 ym mis Ionawr 2023.

5. Cyhoeddwyd y cynigion ar gyfer Adolygiad 2023/24 i ymgynghori arnynt ym mis Ionawr 2023. Gofynnwyd am ymatebion ysgrifenedig, cafwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Staff y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd a chynhaliwyd ymgynghoriad drwy Twitter, mewnrwyd a gwefan y Senedd a thrwy ysgrifennu'n uniongyrchol at randdeiliaid y Bwrdd.

6. Croesawodd y Bwrdd y lefel uchel o ymgysylltu gan y Grwpiau ac unigolion. Y pryder mwyaf i'r ymatebwyr oedd effaith pwysau costau byw ar staff cymorth. Cytunodd y Bwrdd ar gynnydd mewn cyflog o 3 y cant y cant, yn unol â'r cap y cytunwyd arno ar ddechrau'r Chweched Senedd. Cytunodd hefyd y dylid dyfarnu taliad costau byw i staff cymorth o £600 ym mis Ebrill 2023, sy'n uwch na'r £400 arfaethedig a nodwyd yng nghynigion ymgynghori'r Adolygiad Blynyddol, i liniaru'r anawsterau economaidd uniongyrchol.

7. Roedd y pwysau o ran yr economi hefyd yn golygu bod y Bwrdd yn cytuno y dylai'r lwfansau i'r Aelodau dalu costau eu swyddfa a'r lwfans llety preswyl cymwys godi 10.1 y cant, ar gyfradd chwyddiant, yn dilyn yr Adolygiad Blynyddol ym mis Mawrth 2023.

Hawliadau treuliau eithriadol

8. Mae'r Penderfyniad yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan all Aelodau wynebu amgylchiadau eithriadol sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Pan fydd y rhain yn codi, gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr achos dros ddarparu cymorth ariannol eithriadol. Yn ystod 2022-23, cafodd y Bwrdd chwe chais ac fe gymeradwyodd dri ohonynt. Cyfanswm y taliadau a wnaed yn ystod 2022-23 o hawliadau treuliau eithriadol newydd a pharhaus y cytunodd y Bwrdd arnynt mewn blynyddoedd blaenorol oedd £11,837.86.

9. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r holl daliadau lwfansau eithriadol cyfredol yn rheolaidd ac o leiaf yn flynyddol (mewn achosion pan fo'r cyfnod ar gyfer taliadau ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i 12 mis). Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod angen y cymorth sydd wedi'i ddarparu o hyd, ac asesu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau.

Y cytundeb cydweithio

10. Er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn berthnasol i'r cyd-destun gwleidyddol sy'n esblygu, gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a gyhoeddwyd yn ystod tymor yr hydref 2021.

11. Roedd y Cytundeb yn codi cwestiynau i'r Bwrdd, ac effaith y Cytundeb ar y cymorth sydd ar gael i Grwpiau o dan lwfans cymorth y pleidiau gwleidyddol. Galwodd y Bwrdd am dystiolaeth ychwanegol gan randdeiliaid mewnol a Llywodraeth Cymru i lywio ei ystyriaeth o'r materion hyn yn ystod tymor yr hydref 2022.

12. Ar ôl ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan y grwpiau gwleidyddol, yn enwedig mewn perthynas â rôl yr 'Aelodau Dynodedig', penderfynodd y Bwrdd nad oedd modd cyfiawnhau unrhyw newidiadau o ran lwfansau yng ngoleuni'r Cytundeb Cydweithio. Unwaith eto, nododd y Bwrdd y cyngor cyfreithiol a gafwyd, nad yw Plaid Cymru yn blaid sydd mewn grym.

Diwygio'r Senedd

13. Er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol Aelodau a Gweinidogion, a'i fod yn briodol i gyd-destun gwleidyddol Cymru, mae'r Bwrdd wedi bod yn monitro'r gwaith sy'n esblygu ar ddeddfwriaeth Diwygio'r Senedd. Yn dilyn cyhoeddi argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor, Huw Irranca-Davies AS. Rhoddodd ei safbwynt ar waith y Pwyllgor a'r camau nesaf i wireddu Diwygio'r Senedd erbyn 2026.

14. Hefyd, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd ag Arweinwyr y Pleidiau yn ystod tymor yr hydref 2022 i helpu i lywio ei syniadau cynnar ar yr ymagwedd at Ddiwygio'r Senedd a'r materion y mae angen iddo eu cadw ar flaen ei feddwl wrth i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi, ac yn y pen draw beth fydd Diwygio'r Senedd yn ei olygu ar gyfer Penderfyniad y Seithfed Senedd.

15. Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu deall effaith Diwygio'r Senedd, mae'r Cadeirydd a'r Llywydd wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Nododd y Bwrdd hefyd ddull arfaethedig Comisiwn y Senedd o baratoi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil a ddisgwylir ar ddiwygio'r Senedd.

Cymorth staffio

16. Ym mis Rhagfyr 2022, i gydnabod yr amgylchiadau economaidd, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad eithriadol (a wnaed yn unol ag adran 14(2) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010) i roi taliad cyfradd unffurf o £600 i'r holl Staff Cymorth ym mis Ionawr 2023, i helpu i dalu costau byw uwch. Roedd proses y Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cynnwys cydbwyso'r angen i liniaru effaith uniongyrchol yr argyfwng costau byw ar staff ar gyflog isel sy'n arbennig o agored i'w effeithiau, a fforddiadwyedd cyffredinol costau staff uwch ar adeg o bwysau ychwanegol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus.

17. Er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau lefel briodol o gymorth staffio i ddiwallu eu hanghenion, a'u bod yn gallu denu a chadw staff medrus, cytunodd y Bwrdd i gynnal adolygiad thematig o gymorth staffio.

18. Mae'r cam cyntaf wedi dechrau. Mae'n ceisio deall y pwysau sy'n wynebu'r Aelodau a'u staff a gwerthuso a yw'r lwfans ar gyfer gweddill tymor y Chweched Senedd yn briodol o ystyried cymhlethdod a maint y gwaith sydd gan yr Aelodau.

Cynlluniau pensiwn

19. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am osod y rheolau ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau a phenodi ymddiriedolwyr i'r Cynllun yn ogystal â chynllun pensiwn Staff Cymorth yr Aelodau.

Cynllun pensiwn Aelodau'r Senedd

20. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r Bwrdd wedi parhau i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r canllawiau a'r penderfyniadau barnwrol diweddaraf. Gwnaeth y Bwrdd nifer o newidiadau i reolau'r Cynllun yng ngoleuni effaith dyfarniadau McCloud a Sargeant y Goruchaf Lys, ar ôl ymgynghori â'r Aelodau.

Cynllun pensiwn staff cymorth

21. Yn flaenorol, mae'r Bwrdd wedi gwneud nifer o newidiadau i annog staff i ymuno â'r cynllun pensiwn, gan gynnwys darparu cyfraniad cyflogwyr ychwanegol o hyd at 3 y cant pan fydd staff yn gwneud eu cyfraniad eu hunain.

22. Ym mis Mai 2022, ystyriodd y Bwrdd gymhariaeth o'r cynllun â chynlluniau pensiwn perthnasol y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mewn ymateb i adborth yn ystod ymgynghoriad Adolygiad Blynyddol 2021. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y cynllun staff cymorth yn ymddangos yn deg o'i gymharu â chynlluniau tebyg eraill.

23. Cytunodd y Bwrdd hefyd i symud y Cynllun Pensiwn Staff Cymorth i Gynllun Pensiynau Personol Grŵp fel yr argymhellwyd gan Grŵp Llywodraethu'r Cynllun. Mae'r newid yn caniatáu i Staff Cymorth sydd eisiau dewis arall yn lle'r cynllun pensiwn diofyn ddewis o ystod llawer mwy o gronfeydd, gan gynnwys ystod ehangach o Gronfeydd yr Amgylchedd, Cronfeydd Cymdeithasol a Chronfeydd Llywodraethu. Cadarnhaodd Aviva (y darparwr cynlluniau pensiwn) y byddai symud i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp hefyd yn arwain at ostyngiad yn y Tâl Rheoli Blynyddol sy'n golygu i'r rhan fwyaf o Staff Cymorth ostyngiad yng nghyfanswm y taliadau a gymhwysir i'w pensiynau.

Diogelwch

24. Er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau lefel briodol o gymorth i'w galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion, mae'r Bwrdd wedi parhau i gael diweddariadau rheolaidd gan dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd sydd wedi cyflwyno rhaglen o fesurau diogelwch ychwanegol yn swyddfeydd a chartrefi'r Aelodau, y telir eu costau drwy'r Penderfyniad.

25. Yn ogystal â chynnal arolygon ar y safle, mae tîm diogelwch Comisiwn y Senedd wedi darparu cyngor a chymorth ar bryderon diogelwch i Aelodau a staff cymorth. Erbyn mis Ionawr 2023, mae cartrefi a swyddfeydd etholaethol yr holl Aelodau wedi cael eu harolygu ac maent naill ai wrthi'n cael cymorth, wedi cadarnhau nad oes angen unrhyw waith neu mae gwaith wedi'i gwblhau.

3. Amcan 2: Penderfyniad symlach

Symleiddio'r Penderfyniad gyda mesurau diogelu cymesur. Bydd y Bwrdd yn ceisio symleiddio'r Penderfyniad, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i Aelodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain gyda mesurau diogelu cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

Dylai'r Penderfyniad fod yn syml, yn glir ac yn dryloyw i Aelodau a'r cyhoedd, gyda'r lefel gywir o fesurau gwirio a chydbwyso i gynnal hyder y cyhoedd. Bydd yn rhoi hyblygrwydd i Aelodau wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu model busnes bach a blaenoriaethau, gyda phwyslais ar atebolrwydd yr Aelodau i'r cyhoedd. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer Aelodau drwy'r Penderfyniad a'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu yn ategu ei gilydd o ran cefnogi Aelodau yn effeithiol yn eu gwaith.

Sicrhau bod y Penderfyniad yn haws ei lywio

26. Mewn ymateb i adborth gan Aelodau a staff, cyhoeddwyd fersiwn o'r Penderfyniad yn dangos newidiadau wedi'u tracio a wnaed o ganlyniad i Adolygiad Blynyddol 2023. Cynhaliodd swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd a Chymorth Busnes i'r Aelodau sesiynau galw heibio ar y fersiwn ddiweddaraf o'r Penderfyniad. Dywedodd Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth eu bod yn hapus â'r lefel uwch o ymgysylltu ar yr Adolygiad Blynyddol, gan nodi ei fod yn caniatáu iddynt gynllunio ymlaen llaw yn well.

Symleiddio mynediad at asesiadau DSE a mesurau iechyd a diogelwch

27. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Adolygiad Blynyddol Penderfyniad 2023-24, gwnaeth y Bwrdd y geiriad yn y Penderfyniad yn gliriach i ddangos pa gronfeydd sydd ar gael ar gyfer asesiadau DSE a mesurau iechyd a diogelwch.

Symleiddio'r broses gaffael

28. Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Blynyddol fod gofynion y Penderfyniad yn golygu nad oedd yr Aelodau'n aml yn gallu dod o hyd i ddarparwyr addas wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac roedd y trothwy ar gyfer cael tri dyfynbris yn arwain at fwy o ymdrech weinyddol. Arweiniodd hyn at newid gan y Bwrdd i'r Penderfyniad i'w gwneud

yn ofynnol cael tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant ar nwyddau neu wasanaethau â gwerth amcangyfrifedig dros £1,500, sef cynnydd o £750. Drwy sicrhau y caiff yr Aelodau geisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau mewn achosion eithriadol i ddatgymhwyso'r gofyniad, bydd y broses gaffael yn fwy effeithlon ac yn llai llafurus.

Adolygiad thematig i symleiddio'r Penderfyniad

29. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gynnal adolygiad thematig i'w gwneud mor syml â phosibl i Aelodau a Staff Cymorth ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i'w gwneud mor syml â phosibl i'r rhai yn y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gymhwyso'r drefn yn effeithlon, yn ddarbodus a chan olygu llai o risg o anghydfod.

30. Mae cam cyntaf y gwaith hwn, adolygiad systematig ar ddrafftio'r Penderfyniad gyda llygad ar gysondeb, eglurder iaith a chael gwared ar reolaethau diangen wedi dechrau.

31. Gan gydnabod mai dim ond un rhan o system yw ei benderfyniad, mae'r Bwrdd yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn sy'n edrych ar system hawliau'r Aelodau.

4. Amcan 3: Penderfyniad cynaliadwy

Penderfyniad Cynaliadwy: bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno model cymorth cynaliadwy, sy'n ystyried yr amrywiaeth o anghenion, yr argyfwng newid hinsawdd, a'r sefyllfa ariannol hirdymor yng Nghymru.

Dylai'r Penderfyniad gynorthwyo Aelodau i ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian i ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Dylai alluogi Aelodau a'u staff i chwarae eu rhan o ran lleihau eu hôl troed carbon. Dylai alluogi Aelodau i dalu costau busnes newidiol ac anghenion amrywiol Aelodau, eu staff a'u hetholwyr, a chaniatáu ar gyfer trefniadau gweithio cynhwysol a diogel.

Adolygiad thematig ar newid ffyrdd o weithio

32. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod yr achosion o Covid-19 wedi arwain at newid i weithio gartref a gweithio hybrid. Mae'r ffordd hon o weithio wedi parhau ar ôl codi'r rheoliadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig. Cytunodd y Bwrdd i gynnal adolygiad thematig o'r newidiadau i'r ffyrdd o weithio ymysg Aelodau a staff cymorth yn sgil pandemig Covid-19 a'r goblygiadau i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar asesu a yw dibenion y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn parhau i dalu costau busnes yr Aelodau ac i ateb eu gofynion ymgysylltu.

33. Gan fod Comisiwn y Senedd hefyd yn cynnal adolygiad Ffyrdd o Weithio, cynhaliodd y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd ymarfer ymgysylltu ar y cyd, gyda 40 Aelod o bob plaid, o bob rhanbarth yng Nghymru a chan gynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau, Comisiynwyr, Gweinidogion ac arweinwyr Grŵp er mwyn ceisio deall sut y mae eu ffyrdd o weithio wedi newid a'u dewis ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymarfer hwn i'r Bwrdd ac maent yn helpu i lywio ystyriaeth y Bwrdd o unrhyw newidiadau sydd eu hangen i lwfansau'r Aelodau.

34. I lywio'r gwaith hwn, cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan swyddogion o Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban ar waith a wnaed ganddynt ar newidiadau i ffyrdd Aelodau o Senedd yr Alban a'u staff o weithio a hefyd ar y ddarpariaeth costau staff ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban.

35. Mae gwaith eleni ar y ffrwd waith hon wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y Penderfyniad yn cefnogi gallu Aelodau a staff cymorth i weithio o'r swyddfa neu gartref, yn unol â gofynion eu cyflogwr . Cytunodd y Bwrdd i gynnwys lwfans gweithio gartref ar gyfer staff cymorth yn yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad. Yn flaenorol, roedd y lwfans hwn wedi bod yn rhan o'r mesurau ymateb i COVID sydd bellach wedi'u dileu o'r Penderfyniad. Yn ogystal, fel y crybwyllwyd uchod, gwnaed y geiriad yn y Penderfyniad yn gliriach i ddangos pa gronfeydd sydd ar gael ar gyfer asesiadau DSE a mesurau iechyd a diogelwch i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r cronfeydd hyn ar gyfer ymyriadau iechyd a diogelwch ataliol.

Hyrwyddo ôl troed carbon is ar gyfer teithiau busnes

36. Er mwyn paratoi ar gyfer lansio cynllun aberthu cyflog y Comisiwn ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn, cytunwyd ar newidiadau i Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd fel bod cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr o dan y Cynllun yn seiliedig ar gyflog tybiannol yr Aelod cyn y gostyngiad ar gyfer didyniadau aberthu cyflog. Cytunodd y Bwrdd hefyd ar newidiadau i'r cyfraddau milltiroedd i Aelodau yn y Penderfyniad i'w galluogi i hawlio am deithiau a wneir gan gerbydau trydan. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi'r ymrwymiad i helpu Aelodau i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, gan helpu i wireddu amcan y Bwrdd i gael Penderfyniad mwy cynaliadwy. Comisiwn y Senedd benderfynodd ar y cynllun cerbydau trydan ei hun.

5. Amcan 4: Ennyn ffydd ac ymgysylltu

Ennyn ffydd ac ymgysylltu: bydd y Bwrdd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn gallu cynnal adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

Bydd y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu, yn enwedig ar gyfer materion sy'n debygol o fod yn ddadleuol. Bydd y Bwrdd yn parhau i geisio ffurfio cysylltiadau gwaith effeithiol ag Aelodau a'u staff ledled Cymru. Bydd yn ymgysylltu'n rhithwir ac yn fwy rheolaidd i lywio ei adolygiadau. Bydd y Bwrdd yn comisiynu mewnbwn annibynnol arbenigol pan fydd angen tystiolaeth ychwanegol. Bydd y Bwrdd yn ceisio codi proffil ei waith er mwyn helpu i ennyn hyder y cyhoedd yn y Bwrdd fel gwarcheidwad y pwrs cyhoeddus sy'n gweithio er budd democratiaeth yng Nghymru, drwy ymgysylltu â sefydliadau dinesig a'r cyfryngau yng Nghymru.

Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd

37. Ym mis Mai 2022, comisiynodd y Bwrdd adolygiad o'i effeithiolrwydd hanner ffordd drwy ei dymor yn y swydd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol Comisiwn y Senedd a chynhaliwyd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Aelodau o'r Senedd a staff cymorth.

38. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ac ymateb y Bwrdd ym mis Ebrill 2023 ac mae'r Bwrdd bellach yn gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Nododd yr adolygiad nifer o welliannau i'r Bwrdd. Wrth i'r Bwrdd symud i ail hanner ei gyfnod yn y swydd, bydd yn defnyddio'r adroddiad a'i argymhellion i barhau i ddatblygu a chyflawni ei swyddogaethau mor effeithiol â phosibl.

Rhoi adnoddau i Raglen Waith Strategol y Bwrdd

39. Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi i'r Bwrdd unrhyw gymorth gweinyddol y mae ei angen arno yn rhesymol er mwyn gallu cyflawni ei swyddogaethau. Gwnaeth y Bwrdd gais i'r Comisiwn am adnoddau ychwanegol yn 2022-23 i ddatblygu'r flaenraglen waith strategol ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Ers mis Gorffennaf 2022, dangosir bod y cymorth uniongyrchol sydd ar gael i'r Bwrdd bellach wedi'i neilltuo o fewn cyllideb y Comisiwn, a dangosir hyn yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

40. Trafodir gofynion adnoddau a gwaith y Bwrdd yn ystod cyfarfodydd rheolaidd Cadeirydd y Bwrdd gyda Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

41. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r adnodd ychwanegol hwn wedi golygu bod yr ymchwil gwerthfawr a llawn gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad thematig ar ffyrdd o weithio wedi'i gychwyn. Mae hefyd wedi galluogi cynnydd i gael ei wneud ar Raglen Waith Strategol y Bwrdd gan gynnwys paratoi gwaith ar ddatblygu manyleb ar gyfer yr adolygiad cyflog a graddio yn ogystal â'r cwmpasu ar gyfer yr adolygiad symleiddio. Mae gwaith yr adolygiadau thematig wedi datblygu ar yr un pryd â'r Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad, a chyfrifoldebau o ddydd i ddydd eraill. Mae recriwtio pellach yn yr arfaeth a bydd yr adnodd ychwanegol yn galluogi momentwm i adeiladu ar bob un o'r ffrydiau gwaith hyn.

42. Gan ddisgwyl gwaith y Bwrdd yn 2023-24, bydd yr angen am lefel debyg o adnoddau yn parhau er mwyn cyflawni camau nesaf yr adolygiadau thematig priodol, a bydd y Bwrdd yn ymgysylltu'n gynnar â'r Comisiwn i nodi unrhyw arbenigedd allanol ychwanegol sydd ei angen arno i sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ei benderfyniadau.

Ymgysylltu

43. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd weithredu'n gyffredinol mewn modd agored a thryloyw, a chyhoeddi ar y wefan unrhyw wybodaeth a fydd yn galluogi'r cyhoedd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ei weithgareddau. Mae'n gwneud hyn drwy amrywiaeth o gyhoeddiadau - diweddariadau llythyr at yr Aelodau, cofnodion ei gyfarfodydd, a thrwy lunio strategaeth ar gyfer ei dymor yn y swydd. Mae Cadeirydd y Bwrdd hefyd yn cwrdd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn rheolaidd.

44. Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r rhai y mae'n debygol yr effeithir arnynt, cyn gwneud ei benderfyniadau (ac eithrio pan fyddai'n amhriodol). Ym mhob rhan o'i waith, mae'r Bwrdd yn mynd ati i geisio tystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth a bydd yn parhau â'r dull hwn i sicrhau bod ei benderfyniadau'n parhau i fod yn addas i'w diben.

45. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi mewnbwn gan grwpiau sy'n cynrychioli Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth. Mae wedi cynnal pedwar cyfarfod gyda hwy eleni a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn i hyrwyddo ei benderfyniadau ac i ystyried materion sy'n effeithio ar Aelodau a'u staff. Yn ogystal, cynhaliodd y Bwrdd a'r Comisiwn sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd â staff cymorth ac Aelodau ar y newidiadau i ffyrdd o weithio yn ystod tymor yr hydref 2022.

46. Mewn ymateb i adborth yn yr Adolygiad Canol Tymor o Effeithiolrwydd, cymerodd y Bwrdd gamau i sicrhau bod penderfyniadau ar yr Adolygiad Blynyddol yn cael eu gwneud ychydig yn gynharach y flwyddyn ariannol hon, er mwyn galluogi'r Aelodau i gynllunio ymlaen llaw yn well. Cafodd y Grwpiau Cynrychiolwyr wybod am benderfyniadau'r Bwrdd cyn cyhoeddi'r Penderfyniad diwygiedig a gwnaed gwaith ymgysylltu ychwanegol yn ystod yr adolygiad.

47. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth, fod cyfleoedd ymgysylltu personol wedi bod yn gyfyngedig. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgysylltu a rhyngweithio â'i randdeiliaid yn y dyfodol yn amserol ac yn effeithiol a bydd yn archwilio ffyrdd i Aelodau, yn enwedig staff cymorth, allu bwydo i mewn i waith y Bwrdd.

6. At y dyfodol

48. Bydd y Bwrdd yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith ar ei adolygiadau thematig y cytunwyd arnynt ac i sicrhau bod ei ddull o gyfathrebu ac ymgysylltu yn amserol ac yn gynhwysol, o ystyried y bydd barn yr Aelodau a barn staff Cymorth a Grŵp yr Aelodau yn hanfodol i lywio'r gwaith ar wahanol adegau.

49. Yr adolygiadau thematig yw:

Ffyrdd o weithio

50. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried effaith a photensial ffyrdd newydd o weithio i Aelodau a'u staff, megis gweithio hybrid a gweithio o bell, costau swyddfa amrywiol, pwysigrwydd cynaliadwyedd ac amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn yn arwain at adolygu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr maes o law.

Symleiddio

51. Nod yr adolygiad hwn yw ei gwneud mor syml â phosibl i Aelodau a Staff Cymorth ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i'w gwneud mor syml â phosibl i'r rhai yn y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gymhwyso'r drefn yn effeithlon, yn ddarbodus a chan olygu llai o risg o anghydfod.

Cymorth Staffio

52. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried cyflogau a graddio staff cymorth a staff grŵp a'r ystod o rolau y gall fod eu hangen i gefnogi Aelodau'r Senedd yn y Seithfed Senedd, gan ystyried goblygiadau diwygio'r Senedd sydd yn yr arfaeth.

Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

53. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y cymorth a roddir i bleidiau gwleidyddol cyn y Seithfed Senedd. Bydd yn ystyried diben y cymorth i'r pleidiau, dadansoddiad cymharol â modelau cyllido seneddol eraill (e.e. arian byr), a'r effaith a'r goblygiadau posibl ar gymorth a staffio'r pleidiau gwleidyddol cyn diwygio'r Senedd, ac yn dilyn hynny.

Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau

54. Gosodir taliadau'r Aelodau yn y Penderfyniad ar gyfer tymor pum mlynedd y Senedd a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir ei newid. Bydd yr adolygiad hwn yn casglu tystiolaeth ac yn ceisio barn am unrhyw newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y Seithfed Senedd, gan

ystyried unrhyw oblygiadau diwygio'r Senedd o ran cyfrifoldebau'r Aelodau a'r ystod o 'swyddi ychwanegol' sydd â hawl i gyflog ychwanegol. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn 2024-25.

Os hoffech weld gwaith y Bwrdd, gellir dod o hyd i ddeunydd cyhoeddedig a dyddiadau cyfarfodydd yma:

Y Bwrdd Taliadau

Os hoffech gyfrannu at waith y Bwrdd, e-bostiwch:

taliadau@senedd.cymru

Atodiad A: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2022-23

Mae adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi bod rhaid i'r Adroddiad Blynyddol sy'n manylu ar weithgarwch y Bwrdd gynnwys sut y mae'r Bwrdd wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd saith cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd â staff ysgrifenyddiaeth a nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth. Oherwydd trefniadau gweithio hybrid ac effaith gweithredu diwydiannol amrywiol a oedd yn effeithio ar deithio i gyfarfodydd, cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn rhithwir a oedd yn lleihau hawliadau treuliau teithio a chynhaliaeth gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

Tabl 1 - Ffioedd aelodau'r bwrdd

Y swm a hawliwyd gan:	Dr Elizabeth Haywood	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis[1]	Syr David Hanson
Cyfradd ddyddiol[2]	£3,665.46	£2,207.33	£1,576.35	£0	£1,251.94
Cyfradd am hanner diwrnod	£1,000.00	£620.00	£465.00	£0	£630.00
Cyfradd yr awr	£3,579.29	£3,529.94	£805.94	£0	£651.28
Y cyfanswm a hawliwyd	**£8,244.74**	**£3,529.94**	**£2,847.29**	**£0.00**	**£2,533.22**

[1] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

[2] Y gyfradd ddyddiol ar gyfer y Cadeirydd yw £400, y gyfradd am hanner diwrnod yw £200 a chyfradd yr awr yw £53.33. Y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd yw £310, y gyfradd am hanner diwrnod yw £155 a chyfradd yr awr yw £41.33.

Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd[3]

	Dr Elizabeth Haywood	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis	Syr David Hanson
Milltiroedd mewn car	£223.20	£0.00	£0.00	£42.00	£0.00
Tacsi/Llogi car	£0.00	£5.57	£1.924	£12.08	£3.86
Teithiau awyr	£0.00	£0.00	£0.00	£353.04	£0.00
Trên a'r Tiwb	£2.90	£90.95	£77.85	£121.27	£124.79
Treuliau eraill	£0.00	£0.00	£0.00	£56.76	£0.00
Llety	£459.50	£95.00	£99.50	£99.50	£99.50
Cynhaliaeth (arlwyo)	£44.58	£18.70	£20.00	£54.98	£22.62
Symiau gros ac ychwanegu treth	£127.89	£48.98	£132.80	£330.05	£47.00
Cyfanswm *	**£858.07**	**£295.20**	**£332.07**	**£1069.68**	**£297.78**

** Mae cyfanswm y costau'n cynnwys addasiadau o flynyddoedd blaenorol. Mae costau llety'r Cadeirydd yn cynnwys cost gwesty ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd ar gyfer eu cyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2021 (fel arfer telir costau gwestai pob aelod o'r Bwrdd yn ganolog gan Gomisiwn y Senedd, ond y tro hwn, oherwydd camgymeriad gan y gwesty, gofynnwyd i'r Cadeirydd dalu cost ystafelloedd pob aelod o'r Bwrdd). Fel arfer, dangosir cost ystafelloedd gwestyau aelodau'r Bwrdd yn y colofnau ar gyfer pob Aelod, ond ar yr achlysur hwn maent i gyd wedi'u cynnwys yng ngholofn y Cadeirydd, sy'n adlewyrchu sut y talwyd bil y gwesty. Ysgwyddwyd y gost hon yn y flwyddyn ariannol 2021-22, fodd bynnag, ad-dalwyd y gost i'r Cadeirydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23, ac felly mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y ffigurau hyn ar gyfer 2022-23.*

[3] Mae Tabl 2 yn dangos symiau'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. Dyma'r costau net sy'n dangos costau YG ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol.

[4] Pan fydd aelodau o'r Bwrdd yn rhannu tacsi i Dŷ Hywel ar gyfer cyfarfodydd, dyrennir y gost i fwy nag un hawliad teithio.

Mae Tabl 3 yn dangos costau eraill y Bwrdd megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd personol a cheisio cyngor cyfreithiol allanol sy'n ymwneud â Rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

Tabl 3 - Costau ychwanegol

Tâl blynyddol y Comisiwn Gwybodaeth	£40.00
Ymchwil a chyngor arbenigol	£3,750.00
Lletygarwch	£227.00

Tabl 4 – Cyfanswm y costau

Cyfanswm ffioedd aelodau'r Bwrdd (tabl 1)	£17,155.19
Cyfanswm teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd (tabl 2)	£2852.80
Costau ychwanegol (tabl 3)	£4,017.00
Costau staffio5	£268,883.00
Cyfanswm y costau ar gyfer 2022/23	£ 292,185.27

[5] Mae costau staffio ar gyfer y tîm clercio sy'n cefnogi'r Bwrdd wedi'u cynnwys yma fel y cytunwyd arno â Chomisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23.

Atodiad B: Aelodau'r Bwrdd

Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)

Mae Elizabeth yn Gyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd profiadol. Yn flaenorol mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yn aelod o Fwrdd Scottish Power Energy Networks, Grŵp Hendre, Leonard Cheshire, yn aelod annibynnol o Fwrdd Taliadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn Gadeirydd cyntaf CGGC Services Ltd. Hi oedd cadeirydd Tasglu Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Dinas-ranbarthau hefyd.

Treuliodd ddechrau ei gyrfa yn Senedd Ewrop ac Awdurdod Datblygu Cymru, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr CBI Cymru, yna'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu Cymdeithas y Cwmnïau Trenau ac yna bu'n rheoli cwmni chwilio am uwch-swyddogion yng Nghaerdydd a Llundain.

Mae ganddi radd mewn economeg o Brifysgol Caerdydd, PhD a doethuriaeth er anrhydedd o Abertawe, a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr Cymraes y Flwyddyn, ac mae'n Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Elizabeth ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Medi 2020. Mae Elizabeth yn Ymddiriedolwr i'r 'Institute of Welsh Affairs'.

Michael Redhouse

Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion.

Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Mae Michael wedi bod yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Roedd Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Michael wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Y Fonesig Jane Roberts

Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored.

Rhwng 2000 a 2005, Jane oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu mewn nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cynghorwyr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd New Local Government Network ac, ar hyn o bryd, hi yw Cadeirydd yr elusen Living Streets ac Action for Stammering Children.

Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cynghori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Urddwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg ac yn Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc er Anrhydedd â phrofiad o uwch-reoli ym maes gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academaidd ym maes pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Golygodd 'The Politics of Attachment' (1996) ar y cyd â Sebastian Kraemer, a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017). Dyfarnwyd PhD iddi gan y Brifysgol Agored (2021).

Mae Jane wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Hugh Widdis

Hugh yw Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac ef yw'r Cyfreithiwr Adran ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo 22 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol seneddol a llywodraeth. Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyn hynny, gweithiai ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol i gwmni blaenllaw ym maes gwasanaethau ariannol. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ar gyfraith gwahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Roedd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn Cynulliad Cymru (ACARAC) rhwng 2012 a 2019. Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Cafodd Hugh ei benodi i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Medi 2020.

Sir David Hanson

Y Gwir Anrhydeddus Syr David Hanson oedd yr Aelod Seneddol dros etholaeth Delyn rhwng 1992 a 2019. Yn San Steffan roedd yn aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o 1992 hyd nes iddo ymuno â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym 1996. Daeth yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, Alistair Darling, ym 1997 a daeth yn aelod o Lywodraeth y DU ym 1998 pan gafodd ei benodi'n Chwip Cynorthwyol y Llywodraeth.

Cafodd ei ddyrchafu ym 1999 ar ôl ei benodi'n Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Swyddfa Gymreig. Yn 2001 daeth yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat i'r Prif Weinidog Tony Blair hyd at 2005. Gweithredodd fel Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon o gyfnod yr etholiad cyffredinol yn 2005 hyd at 2007. Gweithredodd fel Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhwng 2007 a 2009.

Ar 21 Chwefror 2007, cafodd ei benodiad i'r Cyfrin Gyngor ei gyhoeddi. Roedd yn Weinidog Gwladol dros Ddiogelwch, Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Phlismona yn y Swyddfa Gartref rhwng 2009 a'r etholiad cyffredinol yn 2010. Yna, cysgododd y rôl honno, ac yn dilyn yr etholiad ar gyfer arweinyddiaeth y blaid Lafur cafodd ei benodi'n Weinidog Cysgodol y Trysorlys. Bu David hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder a chafodd ei benodi i Bwyllgor Cuddwybodaeth a Diogelwch Senedd y DU. Bu hefyd yn cadeirio dadleuon seneddol ar ran y Llefarydd.

Cafodd David ei urddo'n farchog am wasanaeth cyhoeddus yn 2020. Cyn cael ei ethol i Senedd y DU, bu David yn gweithio ym maes manwerthu a'r sector gwirfoddol fel prif weithredwr elusen genedlaethol, ac roedd yn gynghorydd ac yn arweinydd grŵp cyngor.

Penodwyd Syr David Hanson i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Awst 2021.